YR ADOLYGIAD O'R
GOFRESTR ELUSENNAU

Hybu Hawliau Dynol

Ionawr 2005

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Cynnwys

Crynodeb **2**

Hybu hawliau dynol fel diben elusennol **3**

Cydweddiad â diben elusennol sy'n bod **3**

Budd i'r gymuned **3**

Eglurder pwrpas **4**

Ffyrdd o hybu hawliau dynol **4**

Hybu hawliau dynol yn y wlad hon a thramor 4

Monitro camarfer hawliau dynol 4

Ceisio cywiro camarfer hawliau dynol i ddioddefwyr 4

Lleddfu angen dioddefwyr camarfer hawliau dynol 4

Ymchwil ar faterion hawliau dynol 5

Addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol 5

Cyngor technegol i lywodraethau ac eraill ar faterion hawliau dynol 5

Cyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol 5

Cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig 5

Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol 5

Hybu cefnogaeth boblogaidd i hawliau dynol 5

Hybu parch at hawliau dynol gan unigolion a chorfforaethau 6

Hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol 6

Dileu tresmasu ar hawliau dynol 6

Gweithgareddau gwleidyddol **6**

Enghraifft: amcan ar gyfer elusen hawliau dynol **7**

Un o argymhellion adroddiad yr Uned Strategaeth 'Gweithredu Preifat, Budd Cyhoeddus' oedd y dylid diwygio canllawiau'r Comisiwn ar ymgyrchu a mabwysiadu ymagwedd llai rhybuddiol, a mwy cadarnhaol. Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn ac mae wedi cyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r daflen CC9. Ar yr un pryd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi diwygio ac egluro ein harweiniad ar hybu hawliau dynol fel diben elusennol. (Dylid nodi bod yr arweiniad diwygiedig yn esbonio bod hybu hawliau dynol yn elusennol yn ôl y gyfraith trwy gydweddiad â dibenion elusennol eraill. Fodd bynnag, wedi'i ddeddfu, bydd y Mesur Elusennau yn darparu sail statudol ar gyfer trin hybu hawliau dynol fel diben elusennol).

Crynodeb

1. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio pam mae hybu hawliau dynol yn cael ei gydnabod fel diben elusennol. Mae hefyd yn ystyried y ffyrdd amrywiol (gan gynnwys ymgyrchu gwleidyddol) y gall elusen hybu hawliau dynol.
2. Mae hybu hawliau dynol yn elusennol trwy gydweddiad yn bennaf â dibenion elusennol sy'n ymwneud â lles a gwelliant moesol neu ysbrydol.
3. Mae sawl ffordd y gall elusen geisio hybu hawliau dynol, gan gynnwys:
   - monitro camarfer hawliau dynol;
   - ceisio cywiro camarfer hawliau dynol i ddioddefwyr;
   - lleddfu angen dioddefwyr camarfer hawliau dynol;
   - ymchwil ar faterion hawliau dynol;
   - addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol;
   - cyngor technegol i'r llywodraeth ac eraill ar faterion hawliau dynol;
   - cyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol;
   - cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig;
   - cynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol;
   - hybu cefnogaeth y cyhoedd i hawliau dynol;
   - hybu parch unigolion a chorfforaethau at hawliau dynol;
   - hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol;
   - dileu tresmasu ar hawliau dynol.
4. Rhaid i ddibenion elusen fod yn glir, yn ddiamwys ac yn elusennol yn unig. Felly mae'n rhaid i sefydliad sy'n ceisio sefydlu ei hun fel elusen sy'n hybu hawliau dynol adnabod y cod neu'r codau hawliau dynol y mae'n ceisio ei hybu. Os bydd yn gweithredu mewn un wlad neu ranbarth yn unig, mae'n rhaid iddi nodi'r wlad neu'r rhanbarth hwnnw. Argymhellwn y dylai hefyd bennu yn ei dibenion datganedig sut y bydd yn hybu hawliau dynol. Ar ddiwedd y cyhoeddid hwn rhown enghraifft o sut y gallai elusen hawliau dynol gyda dibenion eang iawn baratoi ei hamcan.
5. Yn aml bydd hybu hawliau dynol yn golygu ymwneud â'r broses wleidyddol a gall elusen hawliau dynol ymgymryd ag ystod eang iawn o weithgaredd gwleidyddol o fewn y ffiniau a ddisgrifir yn yr arweiniad hwn. Ni all sefydliadau a ffurfiwyd at ddibenion elusennol (neu ddibenion gwleidyddol yn rhannol) fod yn elusennau ac ystyriwn i ba raddau y mae'r egwyddor gyfreithiol hon yn effeithio ar y cyfle i hybu hawliau dynol fel diben elusennol.

Hybu hawliau dynol fel diben elusennol

6. Er mwyn i ddiben gael ei gydnabod fel diben elusennol, rhaid dangos bod y diben yn (1) cydweddu â diben sydd eisoes wedi cael ei dderbyn fel diben elusennol a (2) yn fuddiol i'r gymuned. Rhaid i'r diben fod yn ddigon clir hefyd i'r Llys (a'r Comisiwn) allu ei reoli a'i weithredu.

Cydweddiad â diben elusennol sy'n bod

7. Mae'r Comisiynwyr wedi penderfynu pan ofynnir iddynt ddarparu cydweddiad â dibenion elusennol sy'n bod, dylent fabwysiadu agwedd adeiladol a chreadigol, gan addasu'r cysyniad o elusen i ateb anghenion cymdeithasol sy'n newid yn gyson.

8. Yn dibynnu ar y dulliau a ddefnyddir i hybu hawliau dynol, mae nifer o ddibenion elusennol sy'n bod y gellid eu hystyried yn gydweddiadau priodol. Gan fod parchu hawliau dynol yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn rheidrwydd moesol, mae'r diben elusennol sefydledig o hybu lles a gwelliant moesol neu ysbrydol y gymuned yn darparu cydweddiad digonol (ond nid yr yn unig cydweddiad) dros drin hybu hawliau dynol yn elusennol yn gyffredinol.

9. Trwy ei gydweddiad â gwelliant moesol rydym wedi cofrestru fel cyrff elusennol cyrff sy'n ymwneud â

- hybu cysylltiadau hiliol da, dileu gwahaniaethu ar sail hil a hybu cyfle cyfartal rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol;
- hybu cyfle cyfartal i fenywod a gwrywgydwyr;
- hybu safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfio â'r gyfraith yn y gweithle;
- hybu cytgord crefyddol; a
- hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Budd i'r gymuned

10. Mae hawliau dynol yn hawliau sydd:

- yn sylfaenol yn yr ystyr eu bod yn hanfodol i'n dynoliaeth neu ein gweithrediad fel bodau dynol;
- yn arddangos dimensiwn moesol;
- yn cynnwys pawb; ac
- yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r Wladwriaeth ei wneud i ni, a'r hyn na all ei wneud (neu ganiatáu i eraill ei wneud).

11. Mae'r cysyniad o hawliau dynol yn cael ei gefnogi bron yn unfrydol gan wledydd y bydd (hyd yn oed os yw cadw at yr hawliau hyn yn gaeth yn ysbeidiol). Er enghraifft, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wedi cael ei ddilysu gan 191 gwlad (dim ond dwy wlad sydd heb wneud hynny). Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi corffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Warchod Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol mewn cyfraith wladwriaethol.

12. Mae budd cyhoeddus amlwg i hybu hawliau dynol. Os yw hawliau dynol unigolion yn cael eu sicrhau drwy hyn, mae'r budd yn uniongyrchol ac yn bendant. Hefyd mae budd llai pendant, ond arwyddocaol serch hynny, i'r gymuned gyfan a ddaw o'n canfyddiad bod hawliau sylfaenol pob aelod o'r gymuned yn cael eu gwarchod. Mae hyn yn darparu digon o fudd i'r gymuned i gyfiawnhau trin hybu hawliau dynol fel diben elusennol ynddo'i hun.

Eglurder pwrpas

13. Mae sawl cod hawliau dynol gwahanol. Y rhai a dderbynnir yn fwyaf cyffredinol yw Datganiad Byd-eang Hawliau Dynol a'r confensiynau a datganiadau hawliau dynol dilynol y Cenhedloedd Unedig. Y tu allan i nawdd y CU, mae codau rhyngwladol a rhanbarthol eraill, yn ogystal â chodau sydd wedi cael eu sefydlu gan unigolion a chyrff anllywodraethol. Er mwyn cael y raddfa o sicrwydd ym mynegiant ei amcanion sy'n ofynnol i gael statws elusennol, mae'n rhaid i unigolion sy'n creu elusennau i hybu hawliau dynol bennu'r hawliau y maent yn ceisio eu hybu. Yn ymarferol, yn wyneb uchafiaeth y Datganiad Byd-eang, mae hyn yn debygol o gynnwys cyfeiriad at y Datganiad a'r safonau dilynol a noddir gan y CU.

14. Rhaid i ddibenion elusen fod yn elusennol yn unig. Felly ni all sefydliad a ffurfiwyd at ddibenion sy'n rhannol elusennol ac yn rhannol anelusennol fod yn elusen. Mae hybu hawliau dynol yn gysyniad eang a all gynnwys dibenion anelusennol (yn enwedig, wrth gwrs, dibenion gwleidyddol). Felly, argymhellwn y dylai sefydliad hawliau dynol sy'n ceisio sefydlu ei hun fel elusen nodi ei ddiben yn ei ddogfen lywodraethol mor fanwl gywir â phosib. Os yw diben y sefydliad yn eang iawn, argymhellwn y dylai ddisgrifio sut y bydd yn hybu hawliau dynol. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio rhai o'r ffyrdd (mae'n dra phosib y bydd eraill) y gallai elusen hybu hawliau dynol. Mae pob un o'r ffyrdd hyn o hybu hawliau dynol, wrth gwrs, hefyd yn gallu bod yn ddiben elusennol ei hun. Ar ddiwedd yr arweiniad hwn rhown enghraifft o amcan cyffredinol iawn ar gyfer elusen hawliau dynol.

Ffyrdd o hybu hawliau dynol

Hybu hawliau dynol yn y wlad hon a thramor

15. Yn gyffredinol, er mwyn i sefydliad a ffurfiwyd i weithredu dramor fod yn elusen dan gyfraith Cymru a Lloegr, rhaid i amcanion y sefydliad fod yn elusennol yn unol â chyfraith Lloegr pe byddai ei ddibenion yn cael eu cyflawni yng Nghymru a Lloegr.

16. Nid yw'r rhestr ganlynol o ffyrdd amrywiol y gallai elusen hybu hawliau dynol yn un drylwyr.

Monitro camarfer hawliau dynol

17. Gall elusen sy'n ymwneud â hybu hawliau dynol fonitro ac adrodd am dorri rhwymedigaethau hawliau dynol gwlad, os yw'r rhwymedigaethau hyn yn codi dan ddeddfwriaeth wladwriaethol neu safonau rhyngwladol.

Ceisio cywiro camarfer hawliau dynol i ddioddefwyr

18. Gall elusen hawliau dynol ddwyn pwysau mewn achosion unigol (gan gynnwys trwy ysgogi barn gyhoeddus) i annog llywodraeth i barchu ei deddfwriaeth hawliau dynol ei hun. Gall elusen ddarparu cymorth ar gyfer ymdrechion i geisio cywiro camarfer trwy lysoedd y wlad dan sylw, boed trwy gyfrwng cyngor cyfreithiol arbenigol a chynrychiolaeth neu drwy ddulliau llai uniongyrchol. Bydd argaeledd y dewis hwn, wrth gwrs, yn dibynnu ar god cyfreithiol y wlad ac a yw'n cynnig modd cywiro camarfer hawliau dynol i ddioddefwyr. Hyd yn oed os nad yw cod cyfreithiol y wlad lle mae'r camarfer yn digwydd yn darparu modd i'w gywiro yn benodol, efallai ei fod yn bosib ceisio iawndal neu ymholiad cyhoeddus neu gydnabyddiaeth o gyfrifoldeb. Gall elusen hawliau dynol hefyd gefnogi ymchwiliad ac erlyniad cyn tribiwnlysoedd rhyngwladol unigolion a sefydliadau sy'n cael eu cyhuddo o gamarfer hawliau dynol.

Lleddfu angen dioddefwyr camarfer hawliau dynol

19. Mae'n elusennol i helpu 'carcharorion cydwybod' mewn angen neu eu dibynyddion. Gall cymorth gynnwys cymorth ariannol, addysgol a chymorth i ailsefydlu. Rydym wedi cofrestru fel elusennau cyrff sy'n ymwneud â lleddfu dioddefaint a gofid unigolion sydd wedi dioddef camarfer hawliau dynol. Rydym hefyd wedi derbyn ei fod yn elusennol i ddarparu cymorth ariannol i ddioddefwyr artaith sydd mewn angen ariannol er mwyn iddynt allu cael iawndal neu gywiriad.

Ymchwil ar faterion hawliau dynol

20. Mae hawliau dynol yn bwnc priodol ar gyfer gwaith ymchwil. Mae'r Llys wedi barnu bod hybu a chomisiynu gwaith ymchwil ar gynnal a pharchu hawliau dynol yn bwnc astudio sy'n gallu ychwanegu'n ddefnyddiol at gronfa wybodaeth y dynol ryw.

Addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol

21. Mae hawliau dynol yn bwnc astudio sefydledig mewn ysgolion a cholegau. Gall elusen hawliau dynol hybu addysg mewn hawliau dynol trwy gynnig cefnogaeth ar gyfer astudiaethau o'r fath neu drwy fathau llai ffurfiol o addysg.

Cyngor technegol i lywodraethau ac eraill ar faterion hawliau dynol

22. Gall elusen hawliau dynol ddarparu cyngor technegol i lywodraethau, cyrff anllywodraethol a chyrff perthnasol eraill ar greu, gwella a gweithredu systemau cyfreithiol, rheoleiddiol a gweinyddol i'r sector dim er elw mewn gwledydd dramor. Gall elusen sydd ag amcanion wedi'u geirio'n briodol ddarparu cyngor technegol hefyd i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus gwladwriaethol a thramor ar fabwysiadu a gweithredu deddfwriaeth hawliau dynol, gan gynnwys hyfforddiant i weinyddwyr ar gymhwyso'r ddeddfwriaeth honno.

Cyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol

23. Mae ystod eang o weithgareddau yn gysylltiedig â chyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys darparu deunydd hanfodol i astudio cyfraith hawliau dynol gwlad (megis adroddiadau am benderfyniadau barnwrol). Mae hefyd yn cynnwys ceisio a throsglwyddo gwybodaeth ynglŷn â'r gyfraith fel y mae ar y pryd, sut y mae'n datblygu, a sut y mae'n cael ei gweinyddu a'i chymhwyso.

Cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig

24. Gall elusen sy'n hybu hawliau dynol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau'r llywodraeth ynghylch newidiadau i'r gyfraith. Gall hefyd argymell gwelliannau yn y gyfraith hawliau dynol a darparu sylwadau gwrthrychol ar ddigonolrwydd deddfwriaeth i weithredu hawliau dynol (os yw'n cael ei gwahodd gan y llywodraeth i wneud hynny neu beidio). Gall elusen ymgyrchu dros newidiadau arbennig yng nghyfraith gwlad ar yr amod bod yr ymgyrch wedi'i gynnwys o fewn yr egwyddorion a drafodir ym mharagraffau 33 i 36 isod.

Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol

25. Gall elusen gynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol trwy hwyluso dadl a thrafodaeth. Fodd bynnag, nid oes rhaid i elusen a ffurfiwyd i hybu hawliau dynol gyfyngu ei hun i weithgareddau cytbwys, addysgol. Gall hybu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol trwy ddosbarthu deunydd nad yw'n cyflwyno dwy ochr y ddadl ond yn hytrach yn hybu ei safbwynt ei hun.

Hybu cefnogaeth boblogaidd i hawliau dynol

26. Mae cael y cyhoedd i ffurfio barn neu ddangos teimladau arbennig yn elusennol os mai hybu gwelliant meddyliol neu foesol yw'r rheswm dros wneud hynny. Rydym wedi derbyn bod "hybu safonau ymddygiad moesegol" yn elusennol ar y sail hon. Ac ar y sail hon mae hybu cefnogaeth boblogaidd i hawliau dynol yn elusennol.

27. Yn y ganrif ddiwethaf, yn yr Unol Daleithiau, barnwyd bod hybu "teimladau cyhoeddus a fydd yn rhoi terfyn ar gaethwasiaeth Negroaid" yn elusennol. Ym marn y Llys ni fyddai hyn wedi bod yn elusennol pe byddai wedi cael ei gyfeirio tuag at aflonyddu gwleidyddol ac ymdrechion i newid y gyfraith. Fodd bynnag, y dull a bennwyd yn y rhodd oedd dwyn pwysau nid ar y llywodraeth, ond ar unigolion preifat gyda'r nod o geisio rhyddhad gwirfoddol. Roedd y diben hwnnw yn elusennol trwy gydweddiad â chyfres o achosion a ddangosodd bod datgaethiwo neu ryddhau caethweision mewn unrhyw ffordd heddychlon oedd heb ei wahardd gan y gyfraith yn elusennol.

28. Yn y wlad hon, mae'r Llys wedi derbyn bod defnyddio dylanwad moesol ac ennyn teimladau cyhoeddus mewn ffyrdd sydd heb geisio newid y gyfraith neu bolisi'r llywodraeth yn gallu bod yn ffyrdd cyfreithlon o ddilyn amcanion elusennau cydnabyddedig.

Hybu parch at hawliau dynol gan unigolion a chorfforaethau

29. Er bod hawliau dynol wedi'u diffinio'n bennaf trwy gyfeirio at y driniaeth briodol o unigolion gan y Wladwriaeth, mae gan y cysyniad o hawliau dynol oblygiadau hefyd o ran y ffordd y mae unigolion yn trin ei gilydd hefyd. Gall gwahaniaethu ar sail hil neu grefydd, er enghraifft, gael ei ymladd gan ddeddfwriaeth neu geisio dylanwadu ar y ffordd y mae unigolion yn trin ei gilydd. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm felly pam na ddylai sefydliad a ffurfiwyd i hybu hawliau dynol annog unigolion i barchu hawliau dynol ei gilydd.

30. Gall absenoldeb deddfwriaeth hawliau dynol effeithiol mewn gwlad gael ei ecsbloetio gan unigolion a chorfforaethau er eu mantais economaidd eu hunain. Gall elusen hawliau dynol fynd i'r afael â'r mater hwn a herio ecsbloetio o'r fath, er enghraifft trwy ymgyrchu.

Hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol

31. Mae hybu hawliau dynol yn cynnwys hyrwyddo mabwysiadu a chydymffurfio â chodau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol, ac mae corffori hawliau dynol o fewn cyfraith wladwriaethol yn amcan cyfreithlon elusen sy'n hybu hawliau dynol. Mae hyrwyddo o'r fath yn cael ei wneud yn bennaf mewn fforymau rhyngwladol ac yn dibynnu ar ddeunydd sydd wedi'i ymchwilio'n dda er mwyn bod yn effeithiol. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at gynadleddau a seminarau rhyngwladol ac a noddir gan y Wladwriaeth sy'n ymwneud â mabwysiadu a gweithredu hawliau dynol. Byddai modd i elusen gynnal ymgyrch gwleidyddol i bwyso ar lywodraeth gwlad arbennig i fabwysiadu deddfwriaeth hawliau dynol arbennig (neu bolisïau arbennig) ar yr amod ei fod wedi'i gynnwys o fewn yr egwyddorion a drafodir ym mharagraffau (33 i 36) isod.

Dileu tresmasu ar hawliau dynol

32. Gall elusen geisio dileu tresmasu ar hawliau dynol. Mae rhai o'r ffyrdd a all fod ar gael i wneud hyn wedi cael eu crybwyll yn yr arweiniad hwn, fel monitro a chynyddu ymwybyddiaeth o gamarfer, ceisio cywiro camarfer, a hybu parch at hawliau dynol ymysg unigolion a chorfforaethau. Derbyniom ei fod yn elusennol i "geisio sicrhau dileu arteithio trwy bob dull cyfreithlon" a cheisio sicrhau dileu arteithio, lladd allfarnwrol a 'diflannu' . Rydym hefyd wedi cofrestru fel elusennau sefydliadau sy'n ymwneud â dileu caethwasiaeth, y fasnach gaethwasiaeth a ffurfiau eraill o lafur gorfodol anghyfreithlon. Mae tresmasu ar hawliau dynol o'r fath, bron trwy ddiffiniad, yn groes i gyfraith wladwriaethol y wlad lle y digwydd hyn (yn enwedig o'i ystyried yng nghyd-destun ei rhwymedigaethau cytundeb rhyngwladol) ac felly ni fydd ceisio ei ddileu yn cynnwys ceisio newid cyfraith wladwriaethol yn gyffredinol. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw cyfraith wladwriaethol gwlad yn groes i safonau rhyngwladol, gall elusen ymgyrchu dros ddeddfwriaeth neu newidiadau ym mholisi'r llywodraeth ar yr amod ei fod yn gwneud hynny o fewn yr egwyddorion a drafodir isod.

Gweithgareddau gwleidyddol

33. Gall elusennau ymgymryd ag ymgyrchu gwleidyddol er mwyn hybu eu dibenion elusennol. Mae'r gyfraith elusennau yn gwahaniaethu rhwng dibenion gwleidyddol a gweithgareddau gwleidyddol. Mae gan sefydliad sydd â dibenion sy'n cynnwys hybu hawliau dynol trwy geisio newid y gyfraith, neu newid pwyslais polisi'r llywodraeth, neu wrth-droi penderfyniad y llywodraeth, ddibenion gwleidyddol (o leiaf yn rhannol) ac ni all fod yn elusen. Fodd bynnag, gall ymddiriedolwyr elusen ddefnyddio dulliau gwleidyddol heb beryglu statws elusennol. Yr hyn sy'n bwysig o ran st++atws elusennol yw peidio â chael dulliau gwleidyddol fel y prif ddull a ddefnyddir gan sefydliad i ddilyn ei amcanion sydd yn ôl pob tebyg yn elusennol.

34. Gall elusennau ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol wrth hybu eu dibenion elusennol, ar yr amod bod:

- disgwyl rhesymol y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn hybu dibenion yr elusen i raddau a gyfiawnheir gan yr adnoddau sydd wedi'u hymrwymo;
- ni fydd y gweithgareddau yn cael dylanwadu ar y gweithgareddau y mae'r elusen yn ymgymryd â nhw er mwyn hybu ei hamcanion yn uniongyrchol.

35. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen asesu unrhyw beryglon o ran enw da a pheryglon eraill ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gyfraith gyffredin ac unrhyw ofynion rheoleiddio eraill. Cewch arweiniad pellach yn ein cyhoeddiad CC9. (Mae'r math o amcan a roddir fel enghraifft ar ddiwedd yr arweiniad hwn yn cynnwys pŵer i ymgymryd â gweithgaredd gwleidyddol. Er nad oes rhaid i elusen gael pŵer penodol o'r math hwn o reidrwydd, mae ein henghraifft yn atgoffa ymddiriedolwyr am y cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol elusennau).

36. Mae'r egwyddorion a drafodir yn cael eu cymhwyso'n gyffredinol. Effaith yr egwyddorion hyn yw y gall elusen sy'n cynorthwyo'r tlodion dramor, er enghraifft, ymgyrchu o blaid mabwysiadu hawliau dynol mewn gwlad arbennig os yw'n gallu dangos y byddai mabwysiadu'r hawliau hynny yn tueddu i leihau tlodi yn y wlad honno. Mae'n anochel y bydd gan elusen sy'n ymwneud â hybu hawliau dynol gyfle sylweddol i ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol atodol, ategol. Os yw elusen yn ymwneud â chynorthwyo dioddefwyr camarfer hawliau dynol, er enghraifft, wrth wneud hynny mae'n bosib y bydd yn adnabod camau y gallai'r llywodraeth dan sylw (neu lywodraeth arall) eu cymryd i atal y camarfer hwnnw. Gall fod yn briodol iddi ymgymryd â gweithgaredd gwleidyddol atodol i'r diben hwnnw. Ar yr amod nad ei gweithgareddau gwleidyddol yw'r prif ddull a ddefnyddir i gyflawni ei hamcanion gwleidyddol, gall elusen hawliau dynol ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol sydd heb fod yn gysylltiedig â'i gweithgareddau eraill.

Enghraifft: amcan ar gyfer elusen hawliau dynol

37. "Hybu hawliau dynol (fel y pennir yn Natganiad Byd-eang Hawliau Dynol a chonfensiynau a datganiadau dilynol y Cenhedloedd Unedig) ledled y byd gan bob un neu unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- monitro camarfer hawliau dynol;
- ceisio cywiro camarfer hawliau dynol i ddioddefwyr;
- lleddfu angen dioddefwyr camarfer hawliau dynol;
- ymchwil ar faterion hawliau dynol;
- addysgu'r cyhoedd am hawliau dynol;
- cyngor technegol i'r llywodraeth ac eraill ar faterion hawliau dynol;
- cyfrannu at weinyddiad cadarn y gyfraith hawliau dynol;
- cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth hawliau dynol arfaethedig;
- cynyddu ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol;
- hybu cefnogaeth y cyhoedd i hawliau dynol;
- hybu parch unigolion a chorfforaethau at hawliau dynol;
- hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol;
- dileu tresmasu ar hawliau dynol.

Wrth hybu'r amcan hwnnw ond nid fel arall, bydd pŵer gan yr ymddiriedolwyr

- ymgymryd â gweithgaredd gwleidyddol ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr yn fodlon y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn hybu dibenion yr elusen i'r graddau a gyfiawnheir gan yr adnoddau a ymrwymir ac nid y gweithgaredd hwn yw'r prif ddull a ddefnyddir gan yr elusen i gyflawni ei hamcanion

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddyluniio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Hybu Hawliau Dynol. Ionawr 2005.

RR12